

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

---

Dyddiad:

**Dydd Mercher, 26 Mawrth 2014**

---

Amser:

**10.30**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8403

[PwyllgorIGC@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorIGC@cymru.gov.uk)

---

### Agenda

---

#### Preifat

Cytunodd y Pwyllgor, ar 20 Mawrth 2014, ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 1 a 2 o'r cyfarfod

**1 Trafod cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru (10:30 – 10:45) (Tudalennau 1 – 10)**

**2 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer tymor yr haf 2014 (10:45 – 11:00) (Tudalennau 11 – 22)**

#### Cyhoedd

**3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

#### **4 Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig: Sesiwn dystiolaeth 2 (11:00 – 12:00) (Tudalennau 23 – 37)**

Mark Drakeford AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dr Sarah Watkins, Is-adran Grwpiau Iechyd Meddwl ac Agored i Niwed Llywodraeth Cymru

Chris Tudor-Smith, Pennaeth Is-adran Gwella Iechyd, Llywodraeth Cymru

#### **5 Papurau i'w nodi**

**Gwybodaeth ychwanegol o'r cyfarfod ar 13 Chwefror 2014 (Tudalennau 38 – 42)**

**Nodiadau o ginio i drafod gwaith gyda staff academiaidd Prifysgol Abertawe, 13 Chwefror 2014 (Tudalennau 43 – 48)**

**Nodyn a gymerwyd yn y cyfarfod gyda chynrychiolwyr Sefydliad Metabolig a Gordewdra Cymru (WIMOS), 13 Chwefror 2014 (Tudalennau 49 – 52)**

**Nodyn a gymerwyd yn y digwyddiad grŵp ffocws, Cwmbrân, 12 Mawrth 2014 (Tudalennau 53 – 60)**

**Gohebiaeth oddi wrth y Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru – ymchwiliad awgrymedig i nyrsio cymunedol (Tudalennau 61 – 67)**

**Gohebiaeth o'r DU Crohn a cholitis – ymchwiliad awgrymiedig i weithredu canllawiau cenedlaethol ar glefydau coluddyn llidus (Tudalennau 68 – 73)**

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Gwenda Thomas AC / AM  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/GT/0231/14

David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

5 Mawrth 2014

### **Bil Gwasanaethu Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – y Grŵp Technegol ar Gymhwysedd**

Ysgrifennaf atoch yn amgáu dwy ddogfen i sylw'r Pwyllgor, sef:

- copi o'm llythyr dyddiedig 18 Chwefror 2014 at aelodau'r Grŵp Technegol ar Gymhwysedd; and
- copi o restr aelodau'r Grŵp.

Mae'r Grŵp wedi cael ei sefydlu i wneud argymhellion ynghylch yr anghenion, yr amgylchiadau a'r canlyniadau a ddylai fod yn sail i hawl orfodadwy i ofal a chymorth, fel y darperir ar ei chyfer yn adrannau 28, 31, 33, 36 a 37 o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3). Bydd y rhain yn sail i ddatblygu fframwaith cymhwysedd cenedlaethol, gyda Rheoliadau'n sail iddo fel sy'n ofynnol o dan adran 28 a 29 o'r Bil ac yn ôl y Cod Ymarfer a gyhoeddir o dan adran 139.

Mae'r rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cyrff statudol a chyrff y trydydd sector, yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp ar 19 Chwefror ac roedd nifer da o bobl yn bresennol yno. Cynhelir cyfarfod terfynol y grŵp ar ddechrau Ebrill, ac fe'i dilynir gan un neu ragor o ddigwyddiadau cenedlaethol i gynnwys rhanddeiliaid ym mis Mai. Bydd y digwyddiadau hyn yn rhoi prawf ar ganfyddiadau'r Grŵp ac yn eu harchwilio. Caiff y digwyddiadau hyn eu hwyluso gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf yn disgwyl cael adroddiad terfynol gan y Grŵp rywbryd ar ôl y digwyddiadau hynny er mwyn i'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer gael eu hanfon allan at ddibenion ymgynghori ar ddiwedd y gwanwyn.

Yn fy natganiad ysgrifenedig 5 Tachwedd 2013 gwneuthum ymrwymiad i gyfeirio'r Rheoliadau a'r Cod drafft at y Pwyllgor pan fydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau. Yn y llythyr hwn rwyf yn ailddatgan fy ymrwymiad i wneud hyn.

Yn gywir

**Gwenda Thomas AC / AM**  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu 100% **Tudalen 18**

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk  
Printed on 100% recycled paper



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref: LF GT 194 14

At holl aelodau'r Grŵp Technegol  
ar Gymhwysedd

18 Chwefror 2014

Annwyl Aelod o'r Grŵp

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am eich cyfraniad i'r Grŵp Technegol ar Gymhwysedd. Bydd gwaith y grŵp yn helpu swyddogion i roi cyngor i mi ar y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer i bennu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae cynllunio'r broses newydd ar gyfer cymhwysedd yn hanfodol er mwyn gweithredu'r newidiadau cyffredinol i'r system gofal a chymorth a ddarperir drwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Eich tasg chi yw cynghori ar y broses orau fel y gall gwasanaethau statudol fodloni eu dyletswydd drosfwaol i hybu llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth.

Rwy'n disgwyl y bydd diffiniad y Bil o "llesiant" yn fan cychwyn i'ch gwaith. Bydd ystyried pob elfen unigol sy'n cyfrannu at y diffiniad cyffredinol hwnnw yn eich galluogi chi i bennu cwrmpas y fframwaith newydd fel bod ganddo rôl ganolog yn niben cyffredinol Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac yn y dyletswyddau i unigolion a gyflwynir gan y Bil.

Rwy'n ceisio cael fframwaith cymhwysedd cenedlaethol a gaiff ei ddefnyddio'n gyson ar draws Cymru fel y gall pobl fod yn hyderus y caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu diwallu. Rhaid i'r system newydd wneud yn siŵr fod pobl a theuluoedd yn cael y cymorth iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod cyfrifoldebau parhaol ar awdurdodau lleol i edrych ar gymorth ehangach ar draws y system gofal a lles newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o bobl sydd ag anghenion yn cael eu cefnogi mewn ystod o ffyrdd y gellir cael mynediad iddynt y tu hwnt i'r meini prawf cymhwysedd.

Bydd asesiad a chymhwyster yn chwarae rôl hanfodol yn y system newydd. Ond ni fydd cymaint o arwyddocâd i'r penderfyniad ar gymhwysedd o ran a yw unigolyn yn cael gofal a chymorth i ddiwallu ei anghenion, a bydd llawer mwy o bobl yn cael cymorth drwy'r

dyletswyddau cyffredinol a roddir ar awdurdodau lleol, heb fod angen ysgogiad dyletswydd statudol i ddarparu'r cymorth hwnnw.

Rwy'n gofyn am eich cyngor ar y model cymhwysedd sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo mynediad pobl i wasanaethau cymunedol, gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, ac **ar yr un pryd**, yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r rhai sydd angen cymorth a help sylweddol â'i gofal personol; a thrwy'r help hwn eu bod yn cael cymorth i gadw rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, rwyf am i aelodau'r grŵp fod yn glir o'r cychwyn mai diben trothwy cymhwysedd yw pennu'r pwynt lle bydd unigolyn yn gallu gorfodi'r hawl i gael cymorth gan yr awdurdod lleol, ac felly i bennu'r pwynt y bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu neu drefnu'r ddarpariaeth o ofal a chymorth i'r unigolyn. Rhaid i'r fframwaith cymhwysedd bennu pa anghenion gofal a chymorth fydd yn ysgogi gorfodi'r hawl a'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol ledled Cymru.

Fel isafswm, rwy'n disgwyl y bydd y fframwaith yn sicrhau y bydd pobl sydd angen help gyda thasgau fel dod allan o'r gwely, gwisgo amdanynt, bwyta ac ymolchi yn gymwys am y cymorth sydd ei angen arnynt gan wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

Rwyf hefyd am ystyried yr effaith sylweddol y gall chwalu perthynas hanfodol ei chael ar lesiant pobl a'u gallu i gadw rheolaeth dros eu bywyd bob dydd.

Mae'n rhaid i'r rheoliadau fod yn sensitif i amrywiol nodweddion plant, oedolion a gofalwyr, a'u hadlewyrchu nhw. Mae'n rhaid iddynt alluogi gweithwyr gofal proffesiynol i ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth, effaith yr anghenion hynny ar eu llesiant, a lefel y risg i'r unigolion os nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu.

Dylai'r fframwaith hefyd adlewyrchu'r gofyniad yn y Bil bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion pobl sydd angen eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin neu'n hesgeuluso; ac yn ogystal â hynny, amddiffyn plant rhag niwed neu berygl o niwed. Dylai hyn ddigwydd p'un a yw anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu pennu fel anghenion cymwys neu beidio.

Rwyf wedi gosod tasg heriol ichi sydd ag amserlen yr un mor heriol. Byddaf yn cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd newydd i ymgynghori arno'n gyhoeddus yn y gwanwyn, ac yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, byddaf yn cyflwyno rheoliadau a chod ymarfer i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Dymunaf bob llwyddiant ichi yn eich trafodaethau ac edrychaf ymlaen at glywed eich argymhellion yn y gwanwyn.

Yn gywir

**Gwenda Thomas AC / AM**

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services

**Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Department for Health and Social Services**



Llywodraeth Cymru  
 Welsh Government

**Social Services Eligibility Technical Group**

<b>Name</b>	<b>Role / Organisation</b>
David Street	Corporate Director Social Services, Caerphilly CBC
Stewart Greenwell	Strategic Development Specialist, ADSS Cymru
Carys Lord	Head of Business Management and Innovation, Vale of Glamorgan CC
Jackie Davies	Service Manager Finance & Commissioning, Blaenau Gwent
Sue Darnbrook	Head of Adult Services, Ceredigion CC
Colin Turner	Head of Service Safeguarding and Family, Bridgend CBC
Julie Thomas	Programme Director NCN Development and Integration/ Director Complex Care, Aneurin Bevan UHB
Rhian Davies (Paul Swann)	Chair Disability Wales Reference Group and Director of Disability Wales
Ceri Jackson	Vice chair of Age Alliance Wales and Director of RNIB
Keith Bowen (Beth Evans)	Chair of Carers Alliance and Director of Carers Wales
Steve Harris	Director of Dewis CIL and member of the Wales Alliance for Citizen Directed Care
Amy Clifton	Age Cymru
Yvonne Rodgers	Barnardo's Cymru
Brigitte Gater	Action for Children
Chris Davies	Social Services Improvement Agency
Andrea Gray	Mental Health & Vulnerable Groups (Welsh Government)
Ann Noyes	Adult and Children's Health Policy (Welsh Government)
Chris Humphrey	Strategy Inspector, CSSIW (Welsh Government)
David Clayton	Delivering Policy for Children and Adults (Welsh Government)
Huw Maguire	Family Support (Welsh Government)
Lynda Chandler	Integration Policy and Delivery (Welsh Government)
Martin Semple	Office of the Chief Nursing Officer (Welsh Government)
Rachel Brown	Primary and Community Care Policy (Welsh Government)
Stephen Gear	Safeguarding Team (Welsh Government)

**Facilitator**

Professor Keith Moultrie, Institute of Public Care, Oxford Brookes University

**Policy Team**

Lee Davis, SS Assessment and Care Planning (Welsh Government)

Heather Giles, SS Assessment and Care Planning (Welsh Government)

**Deputy Director**

Margaret Provis, SS Leadership and Improvement (Welsh Government)



**Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
Department for Health and Social Services



**Grŵp Technegol Gwasanaethau Cymdeithasol ar  
Gymwysedd**

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Enw	Rôl / Sefydliad
David Street	Cyfarwyddwyr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Stewart Greenwell	Arbenigwr Datblygu Strategol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Carys Lord	Pennaeth Rheoli Busnes ac Arloesi, Cyngor Sir Bro Morgannwg
Jackie Davies	Rheolwr Gwasanaethau Cyllid a Chomisiynu, Blaenau Gwent
Sue Darnbrook	Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion
Colin Turner	Pennaeth Diogelu Gwasanaethau a'r Teulu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Julie Thomas	Cyfarwyddwr Rhaglenni Datblygu ac Integreiddio NCN/ Cyfarwyddwr Gofal Cymhleth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Rhian Davies (Paul Swann)	Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru a Chyfarwyddwr Anabledd Cymru Wales
Ceri Jackson	Is-gadeirydd Cynghrair Henoed Cymru a Chyfarwyddwr RNIB
Keith Bowen (Beth Evans)	Cadeirydd Cynghrair y Gofalwyr a Chyfarwyddwr Cynhalwyr Cymru
Steve Harris	Cyfarwyddwr Dewis CIL ac aelod o Cynghrair Cymru ar gyfer Gofal a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
Amy Clifton	Age Cymru
Yvonne Rodgers	Barnardo's Cymru
Brigitte Gater	Gweithredu dros Blant
Chris Davies	Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Andrea Gray	Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed (Llywodraeth Cymru)
Ann Noyes	Polisi Iechyd Oedolion a Phlant (Llywodraeth Cymru)
Chris Humphrey	Arolygydd Strategaeth AGGCC (Llywodraeth Cymru)
David Clayton	Cyflawni Polisi i Blant ac Oedolion (Llywodraeth Cymru)
Huw Maguire	Cymorth i Deuluoedd (Llywodraeth Cymru)
Lynda Chandler	Polisi a Chyflawni Integreiddio (Llywodraeth Cymru)
Martin Semple	Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio (Llywodraeth Cymru)
Rachel Brown	Polisi Iechyd Oedolion a Phlant (Llywodraeth Cymru)
Stephen Gear	Y Tîm Diogelu (Llywodraeth Cymru)

#### Hwylusydd

Yr Athro Keith Moultrie, y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Oxford Brookes

#### Tîm Polisi

Lee Davis, Asesu a Chynllunio Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru)

Heather Giles, Asesu a Chynllunio Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru)

#### Dirprwy Gyfarwyddwr

Margaret Provis, Arwain a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru)

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## **Ymchwiliad Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i argaeledd Gwasanaethau Bariatrig – Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru**

### **Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ar ymchwiliad y Pwyllgor Gofal Cymdeithasol i argaeledd gwasanaethau bariatrig yng Nghymru. Mae'r papur yn delio â'r materion y bydd y pwyllgor yn eu hystyried.
2. Mae llawdriniaeth fariatrig yn wasanaeth arbenigol, ac mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau arbenigol trydyddol yng Nghymru ar ran y Byrddau Iechyd Lleol. Y WHSSC sy'n penderfynu sut y bydd yr arian a ddyrannir i'r gwasanaeth hwn yn cael ei wario a'r meini prawf i'w cwrdd os bydd unigolyn angen bod yn gymwys am llawdriniaeth.
3. Datblygwyd y meini prawf mynediad presennol, a fu mewn grym yng Nghymru ers 2009, i sicrhau bod yr adnoddau prin sydd ar gael ar gyfer llawdriniaeth fariatrig yn cael eu targedu ar gyfer y cleifion hynny sydd â'r gallu mwyaf i elwa o llawdriniaeth. Gosododd WHSSC feini prawf fel y bydd llawdriniaeth (un ai drwy fand gastrig neu ddargyfeirio gastrig), yn cael ei ariannu ddim ond pan fydd claf yn cwrdd â meini prawf clinigol penodol, sy'n cynnwys bod â BMI uwch na 50, a chyd-forbidrwydd difrifol.
4. Cwblheir asesiad clinigol ac addasrwydd ar gyfer llawdriniaeth ar gyfer holl gleifion yng Nghymru gan Banel o Dîm Amlddisgyblaethol yn Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru (WIMOS). Mae'r asesiad hwn yn cynnwys ystyriaethau corfforol a seicolegol, yn ogystal â'r gofyniad y cytunir ar nod o golli pwysau a newid ffordd o fyw cyn ystyried llawdriniaeth. Mae'r panel yn ystyried tystiolaeth ysgrifenedig fel na fydd angen i gleifion deithio i'r Sefydliad i gael eu hasesu.

### **Cynnydd a wnaed gan y Byrddau Iechyd Lleol ar yr argymhellion a amlygwyd o fewn Arolwg Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o Ddarpariaeth Llawfeddygaeth Fariatrig a Meini Prawf Mynediad yng Nghyd-Destun Adroddiad Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan**

5. Yn 2012 cynhaliodd y WHSSC adolygiad o bolisi llawfeddygaeth fariatrig. Asesodd yr adolygiad effaith canlyniadau iechyd a'r costau i GIG Cymru wrth fabwysiadu canllaw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ar lawfeddygaeth fariatrig. Nod yr adolygiad oedd argymell dewisiadau i Gydbwyllgor y WHSSC ar gyfer adolygu'r polisi presennol ar lawfeddygaeth fariatrig.
6. Yn adroddiad adolygol y WHSSC a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012, argymhellwyd y dylid cynyddu'r nifer o weithdrefnau a chyfanswm yr arian, o 80 o weithdrefnau a £0.75m o fuddsoddiad yn 2011/12 fel y ganlyn:

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
<b>Achosion (Cymru gyfan)</b>	128	171	214	257	300
<b>Cyfradd (fesul 100,000 poblogaeth)</b>	4.3	5.7	7.1	8.6	10
<b>Gwariant</b>	£0.96m	£1.29m	£1.61m	£1.93m	£2.21m
<b>De Cymru</b>	£0.66m	£0.88m	£1.1m	£1.32m	£1.5m
<b>Gog Cymru</b>	£0.30m	£0.41m	£0.51m	£0.61m	£0.712m

7. Argymhellodd y WHSSC hefyd y dylid adolygu'r meini prawf mynediad.
8. Argymhellodd y WHSSC ymagwedd ddeuol o welliannau yn haenau isaf y llwybr gordewdra, wrth fuddsoddi'r un pryd mewn cynnydd graddol mewn llawfeddygaeth fariatrig.
9. Mae cynllun comisiynu'r WHSSC ar gyfer 2013/14 yn cynnwys cyfnod 1 o'r buddsoddiad ychwanegol hwn, a disgwylir iddo, o ganlyniad i'r amser sy'n arwain i mewn, gychwyn yn gynnar yn 2014/15. Adlewyrchir y proffil buddsoddi ehangach i ddod â Chymru at y gyfradd ganllaw a gomisiynir gan NICE o 10 triniaeth fariatrig fesul 100,000 o'r boblogaeth, o fewn cynllunio comisiynu'r WHSSC o 2014/15 ymlaen.
10. Yn ychwanegol, dechreuwyd ar y gwaith gan lechyd Cyhoeddus Cymru i ddrafftio'r polisi mynediad clinigol ar gyfer gwasanaeth 3 haen o reoli pwysau. Mae'r WHSSC yn cydweithio ag lechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y porth atgyfeirio rhwng gwasanaethau Lefel 3 a Lefel 4 yn eglur ac wedi ei gytuno.
11. Mae adolygiad o'r meini prawf mynediad, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y lefelau o weithgaredd a gomisiynir, hefyd wrthi'n cael eu cytuno ac wedi eu hamlinellu yn y papur tystiolaeth a gyflwynwyd gan y WHSSC. Bydd hyn yn galluogi bod cleifion sy'n cwrdd â meini prawf NICE yn medru cael eu cyfeirio i'w hystyried ar gyfer llawdriniaeth fariatrig. Serch hynny, bydd ystod o feini prawf eraill i'w cwrdd, sy'n cynnwys gofynion sy'n galw am gysylltiad ymlaen llaw â gwasanaethau nad ydynt yn rhai llawfeddygol. Gwneir y penderfyniad i gynnig llawdriniaeth gan y tîm llawdriniaeth fariatrig yn WIMOS.

**Effeithiolrwydd gwasanaethau arbenigol, o fewn Lefel 3 a 4 o Lwybr Gordewdra Cymru Gyfan, wrth ddelio â'r nifer cynyddol o bobl sydd yn rhy**

## **drwm ac yn ordew yng Nghymru; a sut y mesurir ac y gwerthusir y gwasanaethau hyn, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian**

12. Yn 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan, sydd yn egluro'r dulliau ar gyfer atal a thrin gordewdra yng Nghymru, o waith atal yn y gymuned ac ymyrraeth gynnar, i wasanaethau meddygol a llawfeddygol arbenigol. Mae byrddau iechyd wedi astudio polisïau, gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer plant ac oedolion ac yn rhoi datrysiadau ar waith i gwrdd ag anghenion lleol.

13. Mae'r Llwybr yn cynnig pedair lefel o ymyrraeth, ynghyd â gofynion gwasanaeth sylfaenol ar gyfer pob lefel y dylai'r byrddau iechyd lleol anelu atynt:

Nod y lefel gyntaf yw sicrhau bod ystod o gyfleoedd ar gael i'r cyhoedd i gefnogi unigolion wrth iddynt gyrraedd a chynnal pwysau iach, a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn, heb yr angen i ddefnyddio gwasanaethau iechyd penodol, gydag amgylchedd cefnogol hefyd;

Yn lefel 2 ceir y ddarpariaeth o ystod o wasanaethau i unigolion sy'n dymuno colli pwysau ac sydd wedi eu hadnabod fel pobl sydd mewn perygl cynyddol o fynd yn ordew gan aelod o'r tîm gofal sylfaenol;

Nod y drydedd lefel yw sicrhau bod gwasanaethau ar gael i unigolion gordew sydd ag un neu ragor o achosion o gyd-forbidrwydd ac sydd wedi rhoi cynnig ar nifer o ymyriadau'n aflwyddiannus, neu'r rhai sydd â pherthynas emosiynol gymhleth â bwyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ymyriadau mwy arbenigol nag ymyriadau blaenorol, gan gynnwys deiet, ymarfer corff ac elfennau ymddygiadol, i'w darparu drwy ofal sylfaenol ac eilaidd. Maent yn gweithio fel porth at ofal eilaidd sy'n sicrhau bod gwasanaethau gofal eilaidd yn cael eu defnyddio'n briodol;

Mae lefelau 3 a 4 yn ymyriadau penodol ar gyfer y rhai sydd â gordewdra a chyd-forbidrwydd wedi sefydlu, ac ni ellir eu defnyddio i ddelio â'r nifer cynyddol o bobl sydd yn rhy drwm ac yn ordew yng Nghymru;

Nod lefel 4 yw darparu gwasanaeth meddygol a llawfeddygol arbenigol (llawdriniaeth fariatrig) i'r unigolion hynny sydd wedi methu colli pwysau neu gynnal y pwysau delfrydol ar ôl ei golli, drwy ymyriadau eraill yn y llwybr.

14. Bu byrddau iechyd yn cydweithio ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i edrych ar bolisïau, gwasanaethau a gweithgaredd lleol ar gyfer plant ac oedolion yn erbyn Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan ac wedi rhoi datrysiadau lleol ar waith i gwrdd ag anghenion lleol.

15. Profwyd bod llawdriniaeth fariatrig yn gost effeithiol wrth ddewis unigolion priodol. Mewn gwaith ysgrifenedig a gyhoeddwyd nodir bod cost effeithiolrwydd llawdriniaeth fariatrig ymhell o fewn y trothwy cost effeithiolrwydd a osodwyd gan NICE wrth argymhell ymyriadau i'w comisiynu gan y GIG. Ceir peth tystiolaeth sy'n dangos y gall llawdriniaeth fariatrig arbed arian gyda rhai cleifion gyda'r arian

hwnnw'n amlygu ei hun o fewn tua 2 flynedd (yn enwedig gyda diabetes sy'n digwydd yn gynnar sydd yn cael ei wella yn dilyn llawdriniaeth).

### **Lefelau o fuddsoddiad wedi ei ddyrannu ar hyn o bryd i ddarparu llawdriniaeth fariatrig yng Nghymru ac argaeledd llawdriniaeth gordewdra a gwasanaethau arbenigol ar reoli pwysau ledled Cymru**

16. Mae'r cynnydd a wneir gan fyrddau iechyd lleol yn cael ei fonitro bob blwyddyn. Dengys hyn bod pob bwrdd iechyd lleol yn darparu gwasanaethau lefel 1 a 2.
17. Hyd yma mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o un bwrdd iechyd lleol yn unig sydd wedi cyflwyno gwasanaeth lefel 3 cynhwysfawr, yn unol â chanllaw NICE (Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan). Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro'r sefyllfa ac wedi cyfarfod â'r byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i drafod sut i lenwi'r bwlch hwn.
18. Mae gan bob un o'r byrddau iechyd lleol fynediad at wasanaethau lefel 4 (llawdriniaeth fariatrig) sydd yn cael ei fonitro gan y WHSSC. Darperir llawdriniaeth i bobl de Cymru yn WIMOS, sydd wedi ei leoli yn ysbyty Treforys, Abertawe. Mae llawdriniaeth ar gyfer pobl gogledd Cymru'n digwydd yn Ymddiriedolaeth GIG Frenhinol Salford, ar y sail bod teithio i Fanceinion Fwyaf yn llai anghyfleus i gleifion a'u teuluoedd nag Abertawe.
19. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n monitro'r llwybr gordewdra. Gofynnir i fyrddau iechyd lleol asesu eu perfformiad yn erbyn y gofynion gwasanaeth sylfaenol a amlinellir yn y llwybr, erbyn 26 Chwefror 2014.
20. Buddsoddir £500,000 y flwyddyn o fewn contractau ar gyfer llawdriniaeth fariatrig yn ne Cymru (gyda phob bwrdd iechyd lleol perthnasol yn cyfrannu) a thua £250,000 y flwyddyn ar gyfer gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynyddu yn 2014/15 yn unol â'r proffil twf arfaethedig a osodir yn adolygiad y WHSSC yn unol â pharagraff 6 uchod.

### **Crynodeb**

21. Mae graddiant cymdeithasol amlwg a chyson yn perthyn i ordewdra; felly mae angen i ni ganolbwyntio llawer mwy ar ardaloedd difreintiedig. Mae gan gymunedau lleol ran bwysig i'w chwarae wrth ddelio â'r mater, ac mae'n bwysig ein bod ni'n troi at y cymunedau eu hunain i weithredu er mwyn delio â gordewdra, gyda'r llywodraeth a darparwyr gofal iechyd yn darparu cymaint o gymorth a chefnogaeth â phosibl. Mae'r polisi Cyflawni Canlyniadau a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i annog colli pwysau cyn llawdriniaeth yn enghraifft wych o hyn. Serch hynny, mae'r cynnydd mewn galw a chyflymder datblygiad y gwasanaethau yn golygu y bydd cyfyngiadau bob amser ar y gwasanaethau fydd ar gael ar unrhyw adeg benodol.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-10-14 Papur 8

Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 13 Chwefror 2014

Enw'r tyst	Cais	Ymateb
<p>Dr Nadim Haboubi, Fforwm Gordewdra Cenedlaethol Cymru</p>	<p>Cytunodd Dr Haboubi i roi rhagor o fanylion am nifer y cleifion y mae wedi'u hatgyfeirio at lawdriniaeth fariatrig, a nifer y cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth o ganlyniad i'r atgyfeiriadau hynny.</p>	<p>Mae Dr Haboubi wedi cyfeirio 27 o gleifion, ac allan o'r rhain, dim ond un sydd wedi cael llawdriniaeth, a mae dau bellach yn aros am lawdriniaeth.</p>
<p>Mr Jonathan Barry, Cymdeithas Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Prydain</p>	<p>Cytunodd Mr Barry i ddarparu rhagor o wybodaeth am yr 11 o restrau llawn o lawdriniaethau y nododd iddynt fynd ar goll yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am beth y mae "11 o restrau llawn o lawdriniaethau" yn ei olygu o ran nifer y cleifion ac fel cyfran o faich gwaith cyffredinol Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru.</p>	<p>Nid oes ymateb wedi cael ei derbyn hyd yma.</p>

<p>Dr Jayne Layzell, Byrddau Iechyd Lleol</p>	<p>Cytunodd Dr Jane Layzell i egluro a oes gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen "Ysgolion Iach" wedi'i gynnal.</p>	<p>Yn dilyn y cyfarfod, derbynodd Dr Layzell gwerthusiad annibynnol o'r WNHSS gan gydweithiwr. Mae wedi cael ei gwerthuso yn ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel rhan o'r Adolygiad Gwella Iechyd, ond yn llai manwl, ac felly nad allai eu hystyried yn annibynnol. Canlyniad yr adolygiad hwnnw oedd y dylai y rhaglen yn parhau i gael eu hariannu, a cael eu cryfhau drwy wella'r gwerthusiad i gynnwys canlyniadau, sy'n ymgorffori'r cwestiynau arolwg Ymddygiadau Iechyd ym mhlant oedran ysgol, a defnyddir ar hyn o bryd er mwyn gymharu ymddygiad iechyd plant yn rhyngwladol.</p> <p>Gellir gweld copi o'r ddogfen yma: <a href="http://www.cardiff.ac.uk/socsi/research/publications/workingpapers/paper-138.html">http://www.cardiff.ac.uk/socsi/research/publications/workingpapers/paper-138.html</a></p>
<p>Dr Klesh Sidhu, Wyllgor Wasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru</p>	<p>Cytunodd Dr Sidhu i roi eglurhad o'r ffigurau NICE a nododd yn ystod y sesiwn mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- nifer yr unigolion yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu hatgyfeirio at wasanaethau bariatrig;</li> <li>- nifer yr unigolion sy'n gymwys i gael llawdriniaeth fariatrig;</li> <li>- nifer yr unigolion sy'n debygol o dderbyn</li> </ul>	<p>Darparodd Dr Sidhu copi o ddwy dudalen a dynnwyd o'r 'Adolygiad o Ddarpariaeth Llawdriniaeth Bariatrig a'r Meini Prawf Mynediad yng nghyd-destun y Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan', a ddyfynnir Dr Sidhu'r y ffigurau o.</p> <p>Dr Sidhu provided a copy of two pages extracted from the 'Review of Bariatric Surgery Provision and Access Criteria in the context of the All Wales Obesity Pathway', from which Dr Sidhu obtained the figures cited.</p> <p>Mae copi o ddyfyniad y ddogfen yn cynnwys yn y pecyn (HSC(4)-10-14 Papur 9).</p>



	llawdriniaeth.	
--	----------------	--



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd  
Arbenigol Cymru (PGIAC)  
Welsh Health Specialised  
Services Committee (WHSSC)

## **AGENDA ITEM 10**

**10 January 2013**

### **MANAGEMENT OF OBESITY IN WALES**

#### **Review of Bariatric Surgery Provision and Access Criteria in the Context of the All Wales Obesity Pathway**

<b>Report of</b>	Director of Planning
<b>Paper prepared by</b>	Planner for Cardiothoracic Programme
<b>Action/Decision required</b>	<p>It is recommended that:</p> <ol style="list-style-type: none"><li>I. Health Boards expedite development of the obesity pathway (in particular, level 3 services) to increase provision of weight management services for their populations. This will also support any planned increases in bariatric surgery.</li><li>II. Health Boards agree to an investment plan to increase the population rate of bariatric surgery from 80 cases to 300 cases (10 per 100,000 population) over 5 years (option 3).</li><li>III. Health Boards agree to increase bariatric surgery activity from 80 to 128 cases in 2013/14 (as part of the schedule for investment option 3).</li><li>IV. The criteria for bariatric surgery are revised with a view to broadening the criteria to take account of evidence that the benefits of surgery tend to be greater in individuals with early onset of comorbidity. Recommendations for revised criteria are reported to the Joint Committee in June 2013.</li></ol>

	V. Until planned volumes of bariatric surgery increase to the levels necessary to sustain a local service in line with national quality standards, referrals to bariatric surgery for patients resident in North Wales should continue to be made out of area.
<b>Link to Board Committee (s)</b>	
<b>Link to Standards for Health Services in Wales</b>	This paper links to the following Standards for Health: 5. Care Planning and Provision

## 1. SITUATION/INTRODUCTION

The purpose of this report is make recommendations to Health Boards on the development of the obesity pathway, on investment options to increase the provision of bariatric surgery and on revision of the bariatric surgery access criteria, in order to optimise their use of resources to address the problem of obesity.

## 2. BACKGROUND

Obesity is widely recognised to be a risk factor of increasing significance for ill-health and disability in Wales. Prevalence estimates derived from the Welsh Health Survey indicate high levels of obesity in Wales (over 20% of the adult population); as many as 2% (or 60,000 individuals) are estimated to be severely obese.

There is no single health service which can alone address the problem of obesity; an adequate response requires a coordinated pathway of services. This is recognised in the Welsh Government's All Wales Obesity Pathway (2010) which describes 4 levels of obesity services from primary prevention at level 1 through to specialised intervention in the form of bariatric surgery at level 4. It is also reflected in national obesity management guidance (NICE 2006) under which patients should have accessed specialist non-surgical weight loss services before referral to a bariatric surgical centre.

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig

### Nodiadau o ginio i drafod gwaith gyda staff academaidd Prifysgol Abertawe – 13 Chwefror 2014

Fel rhan o'i ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig, bu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cinio i weithio gyda staff academaidd Prifysgol Abertawe ar 13 Chwefror. Diben y cinio oedd rhoi cyfle i'r Aelodau drafod unrhyw waith ymchwil roedd y staff academaidd yn ei wneud, neu'n ymwybodol ohono, a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad.

Ar ôl gweithio dros ginio gofynnwyd i'r staff academaidd baratoi nodyn am y gwaith ymchwil a drafodwyd â'r Aelodau, i helpu'r Pwyllgor i baratoi ei adroddiad ar yr ymchwil.

Dyma'r staff academaidd a oedd yn bresennol:

- Dr Richard Bracken, Athro Cysylltiol mewn Ymarfer Corff a Biocemeg;
- Dr Cathy Thornton, Darlithydd mewn Imiwnedd;
- Dr Sarah Prior, Darlithydd mewn Diabetes;
- Dr Danielle Jones, Ymchwilydd i Ddiabetes â gradd Doethur

#### Dr Richard Bracken

Diolch i'r Cadeirydd am y cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig. Fel seicolegydd ymarfer corff, mae gennyf i ddiddordeb mewn ymchwilio i'r modd y gall pobl ordew a / neu sydd â diabetes (math 1 a 2) fanteisio'n gorfforol, yn fetabolig ac yn weithredol drwy wneud rhagor yn gorfforol. Yn ystod fy ngyrfa fel ymchwilydd, rwyf wedi gweld iechyd nifer o bobl yn gwella drwy ddechrau dilyn rhaglen o weithgaredd corfforol rheolaidd, a pharhau i'w dilyn; yn aml drwy astudiaethau ymchwil a gafodd eu hariannu.

Roedd yn galonogol clywed yn aml yn ystod y cyfarfod fod angen mabwysiadu dull cydlynol o weithredu gan gynnwys llawfeddygon, meddygon, seicolegwyr a dietegwyr yn y gwaith o ofalu am unigolyn gordew cyn iddynt gael llawfeddygaeth bariatrig ac wedyn. Yn fy marn i, mae'n hanfodol bod ffisiolegydd ymarfer corff hefyd yn rhan o'r 'rhaglen gofal' pan gaiff gallu gweithredol yr unigolyn ei bennu, ei wella a'i gynnal ar ôl y llawdriniaeth.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn awr yn gosod anweithgarwch corfforol yn bedwerydd yn y rhestr o ffactorau sy'n achosi marwolaethau, gan ddweud ei fod yn fwy arwyddocaol na gordewdra. Hyn hefyd yw'r prif achos mewn ~21–25% o achosion o ganser y fron a'r colon, 27% o achosion o diabetes a 30% o achosion o glefyd y galon. Drwy wneud mwy yn gorfforol, mae'n bosibl lleihau'r cymhlethdodau a all godi ar ôl llawdriniaeth oherwydd diffyg ymarfer corff ac mae'n ei gwneud yn haws i'r claf reoli'i bwysau ar ôl cael llawdriniaeth bariatrig.

Argymhelliad: cynnwys ffisiolegydd ymarfer corff sy'n ychwanegu at effeithlonrwydd y tîm gofal aml-ddisgyblaeth.

hypertension/cardiovascular disease, insulin resistance/type 2 diabetes, and obesity

Dr Cathy Thornton PhD

Gall gordewdra yn ystod beichiogrwydd niweidio iechyd y fam a'r ffetws, ac mae'n rhoi baich ychwanegol ar adnoddau gofal iechyd. Mae'r effeithiau hirdymor ar iechyd y plentyn yn cynnwys: pwysedd gwaed uchel / afiechyd cardiofasgwlaidd, ymwrthedd i inswlin/diabetes math 2, a gordewdra. Mae'n debyg mai prosesau rhaglennu swyddogaeth fetabolig y ffetws sydd wrth wraidd y cysylltiadau hyn: mae lefelau glwcos uchel yn y fam, asidau brasterog rhydd ac asidau amino yn arwain at newidiadau parhaol yn y modd y rheolir chwant bwyd, swyddogaeth niwroendocrin a metabolaeth egni. Nid yw'r mecanweithiau pathoffisiolegol sy'n creu cysylltiad rhwng gordewdra yn y fam â chanlyniadau gwael i'r baban yn hysbys ond gallai gynnwys

newidiadau mewn metabolaeth glwcos a lipidau, cyfryngyddion sy'n deillio o floneg fel adipocinau, a llid. Rydym yn astudio effeithiau gordewdra'r fam ar ymateb llidiol y brych ar y baban newyddanedig (gan ddefnyddio gwaed o lilyn y bogail). Bydd hyn yn ein helpu ni i ddeall yn well y berthynas rhwng ymateb llidiol y fam a'r plentyn, i gynnig gwybodaeth i wella addysg i ferched cyn iddynt feichiogi, a nodi strategaethau i gyfyngu ar effaith niweidiol gordewdra'r fam ar iechyd y plentyn.

### Dr Sarah Prior

'A yw llawdriniaeth bariatrig yn peri i retinopat heg diabetig waethygu mewn pobl sydd â gordewdra afiachus a diabetes math 2?' - astudiaeth beilot

(Awduron: RL Thomas, SL Prior, JD Barry, SD Luzio, N Eyre, S Caplin, JW Stephens, DR Owens).

Cynhaliwyd dadansoddiad peilot adolygol o gofnodion electronig ysbytai rhwng 1998 a 2012 i asesu achosion o retinopat heg diabetig (DR) a'i ddatblygiad 12 mis ar ôl i unigolyn sydd â gordewdra afiachus a diabetes math 2 gael llawdriniaeth bariatrig.

Cafodd 40 o'r 148 o gleifion eu sgrinio ar gyfer DR cyn eu llawdriniaeth ac wedyn. O'r rhai nad oedd ganddynt DR cyn y llawdriniaeth, datblygodd 1.5% (n=26) ohonynt DR cynnar (BDR) ar ôl y llawdriniaeth. Ni waethygodd cyflwr (n=9) o'r rhai a oedd â BDR cyn y llawdriniaeth, ond gwaethygodd 55.6% (n=5) ohonynt. Gwaethygu wnaeth cyflwr un claf a chanddo BDR difrifol cymedrol a dau a chanddynt DR cam 2 DR (PPDR) cyn y llawdriniaeth. Arhosodd dau glaf â PPDR yn yr ysbyty ar ôl cael llawdriniaeth, dan ofal gwasanaethau llygaid yr ysbyty ac felly nid oedd modd eu hailasesu drwy gyfrwng y gwasanaeth sgrinio.

Gwelwyd nifer fechan o achosion newydd o DR ac o DR yn gwaethygu yn y cleifion hynny nad oeddent yn dioddef o retinopat heg neu'n dioddef BDR

cynnar cyn y llawdriniaeth a chafwyd tystiolaeth bod cyflwr rhai cleifion wedi gwaethygu. Mae perygl i gyflwr cleifion sydd â BDR cymedrol, neu waeth, waethygu, a dylid eu monitro'n agos ar ôl eu llawdriniaeth.

Yn ein hastudiaeth, roedd y rhai y gwelwyd eu DR yn gwaethygu yn dioddef o DR cymedrol cyn y llawdriniaeth, ynghyd â lefelau glwcos plasma uchel ar ôl ymprydio a phwysedd gwaed systolig uwch. Hefyd, roedd lefel eu glwcos ar ôl ymprydio'n gotwng mwy o'u cymharu â'r rhai na welwyd cyflwr eu DR yn newid na'n gwaethygu. Felly, dylid monitro'r cleifion sydd â'r nodweddion hyn cyn y llawdriniaeth i weld a yw eu cyflwr yn gwaethygu. Dylid hefyd cynnig gymaint o therapi â phosibl cyn y llawdriniaeth i'r rhai sydd â lefel glwcos a phwysedd gwaed uchel. Mae angen cynnal astudiaethau ehangach yn awr i asesu sut y mae'r broses o normaleiddio rheolaeth glycaemig ar ôl llawdriniaeth yn effeithio ar ganlyniadau micrfasgwlaidd fel DR, neffropatheg a neuropatheg.

(Llyfryddiaeth: J. Diabetes Complicat. 2014 28(2): 191–195)

Dr Danielle Jones (ar gael yn Saesneg yn unig)

Oxidative stress is an imbalance between the production of free radicals and the ability of the body to detoxify their harmful effects by antioxidants. A free radical is an oxygen containing molecule that is highly reactive with other molecules. Oxidative stress leads to many conditions including neurodegenerative diseases such as Parkinson's disease and Alzheimer's disease, gene mutations and cancers, chronic fatigue syndrome, heart and blood vessel disorders, atherosclerosis, heart failure, heart attack and inflammatory diseases.

The overall aim of this thesis was to investigate the role of fat in obesity and type 2 diabetes (T2DM) focusing on markers of oxidative stress and gene expression (the increased or decreased activation of particular genes) in human abdominal fat from subjects categorised as lean (L), obese (O) and obese with type 2 diabetes (ODM). It was expected that oxidative stress levels would increase with obesity and T2DM. However, results showed lower level of oxidative stress in subjects with obesity and type 2 diabetes. Overall, there appeared to be a protective mechanism in the subjects with diabetes. A significant proportion of the subjects with diabetes were on drug therapies which may have affected the results in these experiments as they may minimise the effects of oxidative stress.

Expression of genes, which may code for proteins involved in oxidative stress and antioxidant production, were looked at in the fat to identify any differences in obesity and diabetes. An increased expression of an antioxidant gene (Glutathione reductase) was seen in subjects with obesity and diabetes compared to those without. From this it was concluded that an environment of high oxidative stress, which may be caused by increased blood glucose in diabetes, causes increased expression of this antioxidant gene.



From these results, it may be hypothesised that within these subjects, the situation of oxidative stress is in fact reversible as the antioxidant capacity in these subjects is evident, and in combination with correct drug therapy it may be possible to combat oxidative burden and reduce the subsequent damage inflicted upon the cells. Particularly within the obese and obese with type 2 diabetes subjects in this study, bariatric surgery may play a positive role in the correction of this oxidative state and it would be of interest to be able to follow up this study by repeating this analysis one year post-operative to see if oxidative burden has improved in these subjects.

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig

### Ymweliad anffurfiol â Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru, Ysbyty Treforys, 13 Chwefror 2014

Yr Aelodau a oedd yn bresennol: David Rees, Elin Jones, Lindsay Whittle, Kirsty Williams, Gwyn Price, Rebecca Evans.

Fel rhan o'r ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig, ymwelodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol â Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru yn Ysbyty Treforys ar 13 Chwefror 2014. Nod yr ymweliad oedd dysgu mwy am y gwasanaeth a ddarperir gan unig uned llawdriniaeth bariatrig y GIG yng Nghymru.

Cyfarfu'r pwyllgor yn anffurfiol ag aelodau tîm amlddisgyblaethol y sefydliad, gan gynnwys staff meddygol preswyl y sefydliad – llawfeddygon, meddygon, anesthetyddion, nyrsys arbenigol, dietegwyr, seicolegwyr, prif nyrsys theatr a gweinyddwyr llawfeddygol – i drafod eu gwaith. Roedd claf a oedd wedi cael llawdriniaeth bariatrig drwy'r sefydliad hefyd yn bresennol ac amlinellodd ei phrofiad o wasanaethau bariatrig hyd yma – gan gynnwys llawdriniaeth – i'r Aelodau.

### **Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru**

Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru yn Ysbyty Treforys yw'r unig ddarparwr gwasanaethau llawfeddygaeth bariatrig lefel 4 yng Nghymru. Fe'i ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2010 a pherfformiwyd y llawdriniaethau cyntaf yno ym mis Ionawr 2011.

Mae'r sefydliad yn asesu'r holl gleifion o Gymru a gaiff eu cyfeirio ar gyfer gwasanaethau lefel 4 yn erbyn y meini prawf a bennwyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. O ran ymgymryd â llawdriniaeth, mae Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru yn gwasanaethu poblogaeth de Cymru – mae'n rhaid i boblogaeth gogledd Cymru deithio i Loegr lle caiff gwasanaethau eu comisiynu yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Brenhinol Salford. Mae'r sefydliad yn darparu tîm amlddisgyblaethol llawn, asesiad cyn llawdriniaeth a gwasanaeth

dilydol am ddwy flynedd yn dilyn y llawdriniaeth ac mae ganddo ddau lawfeddyg ymgynghorol bariatrig llawn amser.

### **Nodyn ar drafodaeth yr Aelodau â thîm amlddisgyblaethol Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru.**

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r themâu a drafodwyd yn anffurfiol gan yr Aelodau a thîm amlddisgyblaethol y sefydliad yn ystod ymweliad y pwyllgor. Roedd llawer o'r materion a drafodwyd yn adeiladu ar bwyntiau a wnaed yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar ffurfiol y bore pan roddodd Mr Jonathan Barry a Mr Scott Caplin – y dau lawfeddyg bariatrig yn y sefydliad – dystiolaeth lafar ffurfiol.

#### *Meini prawf cymhwyso a datblygu'r gwasanaeth*

Tynnwyd sylw at y diffyg cysylltiad rhwng meini prawf cymhwyso yng Nghymru a'r canllawiau NICE yn ystod yr ymweliad â'r sefydliad. Nodwyd na fydd mynediad teg a chyfartal i lawdriniaeth bariatrig yng Nghymru yn cael ei gyflawni heb gadw at ganllawiau NICE, sy'n pennu meini prawf is ar gyfer mynediad i lawdriniaeth na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd o fewn system Cymru.

Esboniodd staff y sefydliad y defnyddir yr offeryn DUBASCO i benderfynu pwy sy'n gymwys ar gyfer llawdriniaeth yng Nghymru. Offeryn dogni yw hwn a ddefnyddir i fodloni'r gofyniad i drin nifer penodedig o gleifion a gomisiynir gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru bob blwyddyn – y ffigur ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf oedd 67 o gleifion (o'r llwyth achosion posibl o 3,000, sef y ffigur a amcangyfrifwyd). Nodwyd bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn edrych i gomisiynu nifer cynyddol o lawdriniaethau bariatrig yn y blynyddoedd sydd i ddod. Nododd staff WIMOS, fodd bynnag, y bu syrthni o ran cynnydd yn y maes hwn.

Nodwyd ar adeg yr ymweliad nad oedd nifer y gweithdrefnau a fyddai'n cael eu comisiynu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014–15 wedi'i gadarnhau eto, ond y trafodwyd cynnydd o 67 i 120. Nodwyd os byddai'r adnodd o ddau lawfeddyg yn cael ei ddefnyddio yn llawn y gallai'r sefydliad gyflawni 240 o lawdriniaethau bob blwyddyn. Pe bai Cymru yn cydymffurfio â chanllawiau NICE, nodwyd y byddai ôl-groniad o gleifion cymwys yn codi.

### *Triniaeth i blant a phobl ifanc*

Nodwyd na chaniateir llawdriniaeth ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed ar hyn o bryd yng Nghymru. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau fod gan bob claf – pa un ai ydynt o dan neu dros 18 oed – fynediad i wasanaethau lefel 3.

Dywedodd staff fod nifer cynyddol o blant a phobl ifanc gordew yn cael eu cyflwyno ar gyfer triniaeth, ond nad oes gwasanaeth lefel 3 pediatrig arbenigol ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru. Nodwyd fod staff y sefydliad yn aml yn aros i unigolion droi'n 18 oed cyn gellir gwneud unrhyw beth defnyddiol i'w cynorthwyo.

### *Gwasanaethau cysylltiedig – dieteteg, seicoleg ac ati.*

Pwysleisiwyd pwysigrwydd y dull amlddisgyblaethol o ymdrin â gwasanaethau bariatrig yn ystod yr ymweliad â'r sefydliad. Pwysleisiwyd rôl bwysig y dietegydd a'r seicolegydd a nodwyd fod cleifion yn aml yn cael eu cyfeirio at y sefydliad heb iddynt gael mynediad at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd cyn hynny. Yn ei dro, gall hyn arwain at atgyfeiriadau amhriodol at y sefydliad ar gyfer llawdriniaeth bariatrig cyn i ddewisiadau ffordd o fyw unigolyn neu ei broffil seicolegol gael eu hystyried yn llawn. Dadleuwyd y gallai darpariaeth fwy addas o wasanaethau lefel 3 sicrhau bod llai o atgyfeiriadau amhriodol at y sefydliad.

### *Effaith llawdriniaeth*

